



Canmlwyddiant geni

T. Llew Jones 1915-2015


Cylchlythyr
T. Llew Jones
Mai 2015

Mae eleni yn flwyddyn fawr i lenyddiaeth plant yng Nghymru wrth i ni ddathlu canmlwyddiant geni T. Llew Jones ar ddydd Sul, 11 Hydref.

Mae gweithiau llenyddol T. Llew Jones yn glasuron, ac yn parhau i fod yn boblogaidd ymysg plant ac oedolion yng Nghymru.




Beth am i ni gynnal te parti mawr, y mwyaf a welodd Cymru erioed, i ddathlu geni brenin llenyddiaeth plant? Bydd yn gyfle i wisgo yng ngwsg y cyfnod, ganrif yn ôl, a dysgu am fwydydd, dillad, addysg ac arferion byw y cyfnod. Beth amdani?

Beth am gynnal te parti mawr yn eich ysgol chi ar **ddydd Gwener, 9 Hydref 2015?**



Sefydlwyd Cronfa Goffa T. Llew Jones er mwyn coffáu yr awdur a'i gyfraniad i Gymru. Yn ddiweddar, penodwyd Heulwen Davies yn gydlynnydd rhan amser er mwyn casglu gwybodaeth am y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar hyd a lled Cymru, cynorthwyo'r trefnwyr i hyrwyddo'r digwyddiadau, ac ysgogi mwy o bobl i ymuno yn y dathliadau. Os byddwch chi'n cynnal gweithgareddau yn yr ysgol, rhannwch y lluniau ar @100TLlew neu ebostiwch heulwenann@hotmail.com

“Yn sydyn agorodd y drws a cherddodd dyn tal, wedi ei wisgo'n fwy gwych na neb oedd yn bresennol, i mewn i'r ystafell.” *Barti Ddu* (1973)



Mae'n werth taro golwg ar wefan Cronfa Goffa T. Llew Jones sy'n tynnu sylw at ddigwyddiadau a gweithgareddau i ddathlu'r canmlwyddiant.

Ewch draw i www.tllewjones.com er mwyn darllen am y newyddion diweddaraf.




Hoffech chi glywed un o nofelau T. Llew yn cael ei dewis yn Llyfr yr Wythnos ar raglen *Bore Cothi*?

Mae Radio Cymru eisiau clywed eich barn, ac eisiau i ni'r Cymry ddewis ein ffefryn o blith ei nofelau.

Ewch draw i wefan Radio Cymru am ragor o fanylion, ac er mwyn pleidleisio dros eich hoff nofel.





Cofiwch annog eich disgyblion a'u rhieni i bleidleisio hefyd. www.bbc.co.uk/radiocymru

“Fuoeh chi yng Nghwm Alltcafau
Lle mae'r haf yn oedi'r hir?
Lle mae'r sane gwcw glasaf?
Naddo? Naddo wir?”



A fyddwch chi'n ymweld ag Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili ddiwedd y mis?

Cofiwch alw heibio'r Ogorf Ddarllen yn y Cwtsh Cymraeg sydd ger y pafiliwn er mwyn clywed rhai o sêr S4C yn darllen o lyfrau T. Llew am 2 o'r gloch bob prynhawn.



“Un noson dywyll fel y fagddu, yn nyfnder gaeaf, roedd Tomos Wiliam, ceidwad tollborth Pont-y-glyn, yn pendwmpian wrth y tân.”

Un Noson Dywyll (1973)

Centenary of the birth of T. Llew Jones.

- Why not join in the fun and celebrations of the centenary of the birth of T. Llew Jones, the prolific author of children's literature? How about holding a big tea party, the biggest tea party Wales has ever seen, at every school on Friday, 9 October 2015 to mark this special occasion?
- All the latest news and information about activities and events held as part of the centenary celebrations can be found on the following website: www.tllewjones.com. Heulwen Davies has recently been recruited to work as part-time co-ordinator, and she'd love to hear how your school plans to celebrate the centenary during 2015. Drop her a line: heulwenann@hotmail.com or @100TLlew when tweeting photos of your celebrations.
- If you're visiting the Urdd National Eisteddfod in Caerffili later this month, stars of S4C will be reading extracts of T. Llew Jones's books every afternoon at 2 p.m. at the Cwtsh Cymraeg, near the main pavilion.